



Dangosir aelodau o Dîm Dan 15 y clwb yn derbyn eu tlysau am ddod yn ail yng Nghynghrair Eryri, 2000 mewn cyflwyniad yng Nghlwb Criced Bangor.

Clwb Criceci Pwllheli

Mae timau'r clwb wedi dechrau'r tymor yn eithaf llwyddiannus ar y cyfan.

Chwaraeodd y Tîm Cyntaf 5 gem, gan ennill 3 a cholli 2 yn Ail Gynghrair Gogledd Cymru. Disgleiriodd Neil Williams gyda'r bat wrth sgorio 101 yn y fuddugoliaeth dros Carmel, ac mae'r capten, John Cooper, wedi cipio 14 o wicedi hyd yn hyn.

Anlwcus oedd yr Ail Dîm yn erbyn Biwmares yng Nghwpan Tysilio gan gollu o 2 rediad. Batiodd Dafydd Dabson yn rymus am 48 ond profodd cyfanswm Biwmares o 162 yn ormod.

Yng Nghynghrair Gwynedd mae'r Ail Dîm yn chwarae, ac maent wedi ennill un a cholli dwy. Yn anffodus collwyd eu gem ddiwethaf o 10 rhediad yn erbyn Porthaethwy, er i'r batwyr Clive Morris (34) a Ceiri Rowlands (24) ddangos eu doniau.

Daeth llwyddiant i'r timau Dan 15 a Dan 13 yn rownd gyntaf Cwpan Cymru wrth iddynt drechu'r Bala. Sgoriodd y tîm Dan 15 120 o rediadau, diolch yn bennaf i ymdrech Ben Jones (51 heb fod allan) a bu i'r Bala ildio am 16 yn unig, gyda Mathew Pengelly a Ben Dabson ymysg y bowlwyr

llwyddiannus. Robert Cooper oedd batiwr gorau'r tîm o Dan 13. Bydd y ddau dîm yn wynebu Llandudno yn y rownd nesaf.

Yn ystod misoedd y gaeaf mae tri o chwaraewyr ifanc y clwb wedi bod yn ymarfer gyda Charfan Eryri a Charfan Ddatblgu Gogledd Cymru. Dafydd Dabson (Dan 17) Ben Jones (Dan 13) a Robert Cooper (Dan 12) yw'r tri dawns. Cafodd Ben Jones hefyd wahoddiad i ymarfer gyda Chat-fan Dan 13 Cymru yng Nghaerdydd.

Da yw cael adrodd ar ddechrau tymor fel hyn fod aelodau iau o'r clwb yn chwarae yn rheolaidd gyda'r tîm cyntaf a'r ail ac mae eu cynnydd parhaol yn siwr o sicrhau dyfodol y clwb.

Drysau Neuadd Sarn yn Agor



Llan: Dewi Wyn

Bydd Neuadd Goffa Sarn yn agor yn swyddogol ar Fehefin 29. Tros y misoedd diwethaf bu gweithwyr yn brysur yno'n adeiladu adeilad newydd sbon.

Agorir y neuadd ar y nos Wener gan y Capten Wynne Finch a bydd plant yr Urdd Botwnnog, Ffermwyr Ifanc y Rhiw, Harri Richards a Hogiau'r Mynydd yn cymryd rhan. Wedyn, ar y dydd Sadwrn cynhelir te parti i'r plant ac yna, gyda'r nos, gig i bobl ifanc gyda Anweledig a grwpiau lleol yn perfformio.

Mae'r pwyllgor yn awyddus i'r ardal wneud defnydd llawn o'r neuadd. Os am logi neu am wneud ymholiadau, ffoniwch Eileen Roberts, Ty'n Coed, Sarn (730225)

Raymond Cotgrove ac Alan Wyn Jones am arwain yr hogiau i fwynhau tymor mor llwyddiannus - ac hefyd i Gareth Williams am ofalu am yr ail dîm. Gwelwyd Gerallt Davies, Brian Mathews a Robert Wyn Jones yn ogystal a Jason Jones yn datblygu o'r ail dîm i ennill eu lle yng ngharfan y tîm cyntaf - ac, heb amheuaeth, mae mwy eto i'w dilyn.

Edrychwn ymlaen at fwy o llwyddiant y tymor nesaf.

Rownd Derfynol Tlws Tarian Eryri

Bodedern 1 v Nefyn 4

Cwta wythnos cyn y gem yma am dlws Tarian Eryri fe drechodd hogiau Bodedern y gleision o 4-0 mewn gem gynghrair, ond nos Fercher diwethaf ar y Traeth, Porthmadog, fe dalodd Nefyn y pwyth yn ôl a hynny'n ddigamsyniol.

Dechreuodd Bodedern yn gryf a phwrpasol gan wneud defnydd o sgiliau Paul Williams ar y dde a bu'n rhaid i Geraint Davies benio dros ei drawst ei hun. Aeth hogiau Man yn agos eto ar ôl thwarter awr a chasglodd Dylan Hughes yn gôl Nefyn y bêl oddi ar ben Emyr Roberts.

Eiliadau wedyn. dyfarnwyd cic rydd i Fodedern a bu'n rhaid i Dylan wthio'r bêl dros y trawst. Yn raddol fodd bynnag daeth hogiau canol cae Nefyn - Siôn Williams, Owain Gwilym John Gwynfor a Bleddyn Evans fwyfwy i'r gem. Roedd eu tacllo digyfaddawd yn tynnu Bodedern oddi ar eu hechel a chydag Emlyn Hughes yn

gwneud defnydd o aceri agored y Traeth, daeth cyflymdra Brian Mathews - chwaraewr gorau'r gem - i'r amlwg.

Gwelwyd sawl symudiad rhwng Brian a Geraint Evans oedd yn gollwng Alan Wyn Jones i safleoedd peryglus, a dim ond tacl funud olaf a arbedodd Bodedern fwy nac unwaith. Gyda deng munud yn weddill cyn hanner amser derbyniodd Brian Mathews bêl gan Siôn Williams ar y llinell hanner a defnyddiodd ei gryfder a'i gflymder i dorri i lawr y dde - tynnu'r gôl-geidwad oddi ar ei linell a gosod y bêl o flaen gôl wag i Alan rwydo.

Pwysodd Bodedern yn drwm ar ddechrau'r ail hanner ac, ar ôl wyth munud, o symudiad ar y dde, methodd Nefyn â chlirio'r bêl a rhywodd Pierce yn isel heibio Dylan.

Cododd hyn ysbryd Bodedern a gwelwyd ton ar ôl ton o ymosodiadau. Ond gyda John Gwynfor yn arwain trwy esiampl a

Robert Wyn Jones yn herio pob pêl ar yr asgell dde, daeth Nefyn trwy'r storm yn ddiogel.

Gydag ugain munud yn weddill enillodd Nefyn gic gornel a chrosodd Emlyn Hughes o'r dde. Methodd Bodedern â chlirio'r perygl a sgoriodd Owain Gwilym hefo cic siswrn fendigedig. Bum munud yn ddiweddarach gwthiodd Siôn Williams bêl y tu ôl i gefnwyr Bodedern ac, mewn sefyllfa un i un hefo'r gôl-geidwad, fe dorodd y bêl i droed Alan a rhoddodd ei gol ef Nefyn 3-1 ar y blaen. Fel halen ar y briw enillodd Emlyn Hughes y bêl hanner y ffordd i mewn i hanner Bodedern ochr gamodd ddwy dacl a rhywdo yn uchel i'r dde i selio buddugoliaeth gampus.

I gyrraedd y rownd derfynol hon bu'n rhaid i Nefyn drechu Pwllheli, Y Felinheli a Deiniolen.

Ar derfyn eu tymor cyntaf yn ôl yng Nghynghrair 'Silver Star' Gwynedd gorffennodd Nefyn yn y 6ed safle - a hwy yw deiliad Tlws Tarian Eryri.

Longyfarchiadau gwresog i